Adroddiad ar Bost yng Nghymru Gorffennaf 2011

Targedau Cyflawni'r Post Brenhinol 2010-2011

Canlyniadau'r Pedwerydd Chwarter (2 Ionawr - 20 Mawrth)

Nododd y Post Brenhinol mai tywydd garw'r gaeaf ac ôl-groniadau mawr oedd y rheswm pam na lwyddodd i gyrraedd dros hanner ei dargedau dosbarthu ar gyfer post dosbarth cyntaf yng Nghymru yn ystod pedwerydd chwarter y flwyddyn. Dengys ffigurau Ansawdd Gwasanaeth ar gyfer pedwerydd chwarter 2010/11 fod pump o'r wyth ardal cod post yng Nghymru wedi methu â chyrraedd targedau'r Post Brenhinol i ddosbarthu 91.5 y cant o bost â stamp dosbarth cyntaf y diwrnod canlynol.

Casnewydd (NP) oedd yr ardal a berfformiodd waethaf, gan fethu â chyflawni ei tharged ar gyfer yr ail chwarter yn olynol. Mae'r canlyniadau ar gyfer pedwerydd chwarter y flwyddyn yn siomedig iawn ac nid ydym yn cytuno bod tywydd garw wedi cyfrannu at fethiant y Post Brenhinol i gyflawni targedau yn hanner yr ardaloedd cod post yng Nghymru. Dengys data gan y Swyddfa Dywydd fod y tywydd wedi bod yn gymharol fwyn ac eithrio wythnos gyntaf oer ym mis Ionawr.



Canlyniadau Cronnol 2010 - 11

Mae'r Post Brenhinol yn defnyddio ffigurau wedi'u haddasu i ystyried yr aflonyddwch a achoswyd gan eira a lludw folcanig. Mae'r Post Brenhinol yn honni bod ardal Casnewydd wedi cyflawni ei thargedu ar gyfer y flwyddyn gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r addasiadau hyn wedi'u hadolygu na'u derbyn gan Postcomm eto ac mae'r rheoleiddiwr yn annhebygol o wneud hynny cyn yr hydref. Methodd ardal Casnewydd â chyflawni ei thargedau yn ystod tri o'r pedwar chwarter y llynedd.



Cwynion ac Iawndal 2010-2011

Ardal Cod Post	Nifer y Cwynion		Nifer a Dalwyd		Iawndal	
	2009/10	**2010/11**	**2009/10**	**2010/11**	**2009/10**	**2010/11**
CF	13,532	13,640	7,690	7,241	£115,495	£106,112
CH	8,578	8,479	4,672	4,547	£70,820	£77,663
HR	2,257	2,153	1,346	1,226	£27,395	£20,122
LD	459	562	267	352	£3,674	£6,815
LL	5,871	6,058	3,251	3,170	£63,142	£47,439
NP	5,234	5,276	3,323	3,094	£57,267	£40,466
SA	9,372	9,410	5,487	5,451	£85,905	£81,435
SY	3,923	4,130	2,284	2,250	£31,904	£33,672
Cyfanswm	**49,226**	**49,708**	**28,320**	**27,331**	**£455,602**	**£413,722**

Y tri phrif gategori ar gyfer cwynion oedd colled, arallgyfeirio ac oedi, gyda mwy na £315,000 yn cael ei dalu mewn iawndaliadau am eitemau coll yng Nghymru. Bu cynnydd bach yn nifer y cwynion ond mae lefelau'r iawndaliadau wedi gostwng. Ceir dadansoddiad cod post unigol a'r deg prif gategori ar-lein ar Fap Post Cymru (gweler isod).

Map Post Cymru

Mae'r holl wybodaeth rydym yn ei darparu ar hyn o bryd ar gyfer yr Adroddiad Chwarterol hwn bellach ar gael ar-lein. Mae Map Post Cymru yn eich galluogi i chwilio yn ôl cod post i weld sut mae eich ardal yn perfformio mewn perthynas â thargedau dosbarthu a chwynion. Mae'n eich galluogi i gymharu ffigurau a chanlyniadau perfformiad ar gyfer bob chwarter mewn graffiau a thablau sy'n hawdd eu darllen. Gobeithio y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i chi weld sut mae'r Post Brenhinol yn perfformio yn eich ardal chi ac yn amlygu unrhyw angen ar gyfer gwella.

Gallwch weld y wefan yn http://walesmail.cflabs.org.uk/cy/